

Blinder a chanser

Mae'r wybodaeth hon am flinder. Mae blinder yn golygu teimlo'n flinedig iawn. Gall fod wedi ei achosi gan ganser neu driniaethau canser.

Ceir esboniad o'r geiriau sydd wedi eu tanlinellu yn y rhestr geiriau ar y diwedd. Mae'r rhestr geiriau hefyd yn cynnwys ynganiad y geiriau yn Saesneg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr wybodaeth hon, gallwch holi'ch meddyg neu nyrs yn yr ysbyty lle rydych yn cael eich triniaeth.

Gallwch hefyd ffonio Cymorth Canser Macmillan ar y rhif radffôn **0808 808 00 00**, dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 8pm. Mae gennym gyfieithwyr, felly gallwch siarad gyda ni yn eich iaith eich hun. Pan fyddwch yn ein ffonio, dywedwch wrthym yn Saesneg pa iaith yr ydych ei hangen (dywedwch "Welsh").

Mae mwy o wybodaeth yn Gymraeg yn macmillan.org.uk/translations

Mae'r wybodaeth hon yn trafod:

- Beth yw blinder?
- Beth sy'n achosi blinder?
- Ffyrdd o reoli blinder
- Ymdopi gyda blinder yn y gwaith
- Gofalu am rywun gyda blinder
- Sut y gall Macmillan eich helpu chi
- Rhestr geiriau
- Mwy o wybodaeth yn Gymraeg
- Cyfeiriadau a diolchiadau

Beth yw blinder?

Blinder yw pan fyddwch yn teimlo'n flinedig iawn y rhan fwyaf neu trwy'r amser. Mae'n broblem gyffredin ymysg pobl gyda chanser.

Mae blinder a achosir gan ganser yn wahanol i flinder y gall rhywun heb ganser ei gael. Mae pobl gyda chanser yn blino'n gynt wedi gweithgaredd, ac yn aml ni fydd gorffwys na chysgu yn ysgafnhau'r blinder.

Ar gyfer y mwyafrif, mae blinder yn gwella ar ôl i'r driniaeth orffen. Ond gallai barhau am sawl mis, neu flynyddoedd hyd yn oed. Mae pawb yn wahanol ac nid oes modd o wybod am ba mor hir y bydd blinder yn para ar gyfer pob person.

Gall blinder effeithio arnoch mewn gwahanol ffyrdd. Rhai effeithiau cyffredin blinder yw:

- anhawster gwneud pethau syml, fel brwsio eich gwallt neu wisgo
- teimlo nad oes gennych unrhyw egni neu nerth
- anhawster canolbwyntio a chofio pethau
- anhawster meddwl, siarad neu wneud penderfyniadau
- teimlo'n fyr eich gwynt wedi gweithgaredd ysgafn
- teimlo'n chwil neu benysgafn
- anhawster cysgu (anhunedd)
- colli diddordeb mewn rhyw
- teimlo'n fwy emosiynol nag arfer.

Gall fod yn rhwystredig a threchol pan fyddwch yn flinedig y rhan fwyaf o'r amser. Mae'n bwysig dweud wrth eich meddygon a nyrsys sut mae'n gwneud i chi deimlo. Mae sawl ffordd y gallant eich helpu. Mae yna hefyd bethau y gallwch chi eu gwneud eich hun a allai helpu. Er enghraifft, gall bod yn gorfforol egniol helpu eich blinder.

Beth sy'n achosi blinder?

Gall blinder fod wedi ei achosi gan:

- y canser
- triniaethau canser
- anemia
- problemau bwyta
- problemau iechyd eraill
- effeithiau seicolegol canser.

Y canser

- Ar gyfer rhai pobl, gallai'r canser achosi blinder.
- Gallai hyn fod oherwydd symptomau'r canser. Er enghraifft, efallai bod rhannau o'ch corff wedi chwyddo gan fod y canser wedi achosi hylif i Gronni. Gall hyn wneud iddynt deimlo'n drwm a gall fod yn anodd symud o gwmpas.
- Efallai eich bod yn teimlo'n flinedig oherwydd bod y canser wedi lleihau'r nifer o gelloedd gwaed coch. Gelwir nifer isel o gelloedd gwaed coch yn anemia.
- Gall canserau sy'n achosi newidiadau mewn lefelau hormonau, megis canser y fron neu ganser y brostad, achosi blinder.

Triniaethau canser

- Os yw blinder wedi ei achosi gan driniaeth canser, mae fel arfer yn gwella wedi i'r driniaeth orffen. Ond ar gyfer rhai pobl, gallai barhau am sawl mis, neu flynyddoedd hyd yn oed.
- Llawfeddygaeth – Mae blinder wedi llawfeddygaeth fel arfer dros dro, ond mae'n dibynnu ar y math o llawfeddygaeth.
- Cemotherapi a radiotherapi – Mae blinder fel arfer yn gwella 6 i 12 mis wedi i'r driniaeth orffen, ond weithiau gall barhau'n hirach. Weithiau gallai'r triniaethau hyn achosi effeithiau hirdymor megis bod yn fyr o wynt neu broblemau â'r galon. Mae'r rhain yn debygol o'ch gwneud i deimlo'n fwy blinedig. Gall cemotherapi a radiotherapi hefyd achosi anemia.
- Therapi hormonaidd a therapi targedig – Gall rhai o'r therapïau hyn achosi blinder am y cyfnod rydych yn eu cymryd.

Mae gennym ragor o wybodaeth mewn ieithoedd eraill am llawfeddygaeth, cemotherapi, radiotherapi a sgîl-effeithiau triniaethau canser. Ewch i macmillan.org.uk/translations neu ffonio **0808 808 00 00**.

Anemia

Mae anemia yn digwydd o ganlyniad i beidio â chael digon o haemoglobin (Hb) yn y gwaed. Ceir haemoglobin yng nghelloedd coch y gwaed ac mae'n cludo ocsigen o amgylch y corff, sy'n rhoi egni i ni. Os oes gennych anemia efallai byddwch yn teimlo

- yn flinedig
- yn fyr o wynt
- chwil a phen-ysgafn.

Gall anemia fod wedi ei achosi gan gemotherapi neu radiotherapi. Gall eich meddyg wirio os oes gennych anemia. Os oes gennych, efallai y byddwch angen triniaeth i wneud i chi deimlo'n well.

Problemau bwyta

Os nad ydych yn bwyta'r un faint o fwyd ag y byddech fel arfer, gallai hyn achosi i chi gael llai o egni a theimlo'n flinedig. Mae'n bwysig dweud wrth eich nyrs neu feddyg os ydych chi'n cael trafferth bwyta.

Os yw bwyd yn troi arnoch chi a'ch bod yn methu â bwyta, dywedwch wrth eich meddyg. Efallai y byddant yn gallu rhoi meddyginiaeth i helpu. Os na fedrwyd gymryd meddyginiaeth ar gyfer pwys, neu ni fedrwyd ei gadw i lawr oherwydd chwydu, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs. Mae ffyrdd eraill o gymryd meddyginiaethau gwrth-salwch.

Mae gennym daflen ffeithiau yn Gymraeg o'r enw **Problemau bwyta a chanser** sy'n rhoi mwy o wybodaeth. Ewch i macmillan.org.uk/translations neu ffonio **0808 808 00 00**.

Poen

Os oes gennych boen gall hyn achosi blinder. Gall cyffuriau lleddfu poen a thriniaethau eraill helpu. Os yw'ch poen wedi ei leddfu, gall hefyd helpu gyda'ch blinder.

Problemau meddygol eraill

Gall diabetes, problemau'r galon neu thyroid hefyd wneud blinder yn waeth. Weithiau, os byddwch yn cymryd meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau eraill, gall y rhain wneud i chi deimlo'n flinedig hefyd.

Colli cryfder y cyhyrau

Os oes gennych flinder, efallai byddwch yn dod yn llai egni'ol dros amser. Pan nad yw eich cyhyrau yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, maent yn dod yn fwy gwan. Bydd bod â chyhyrau gwan yn golygu y byddwch yn ei chael yn anodd ac yn flinedig i wneud y tasgau symlaf. Gallai hefyd olygu eich bod mwy o risg i chi gael codwm.

Bod yn egni'ol yn gorfforol yw'r ffordd orau i gadw cryfder eich cyhyrau ac i adeiladu eich egni.

Effeithiau emosiynol canser

Gall effeithiau emosiynol canser achosi blinder. Mae pobl yn teimlo gwahanol emosiynau pan mae ganddynt ganser. Efallai byddwch yn teimlo'n bryderus, yn drist neu'n flin. Does dim ffordd gywir nac anghywir o deimlo. Weithiau gall teimlo emosiynau anodd ei gwneud hi'n fwy anodd cysgu. Yna, gall peidio â chael digon o gwsg eich gwneud yn fwy blinedig.

Mae yna wahanol fathau o gymorth emosiynol y gallech eu canfod yn ddefnyddiol, gan gynnwys siarad a therapïau cyflenwol.

Ffyrdd o reoli blinder

Ffyrdd y gall eich tîm gofal iechyd helpu.

Mae'n bwysig siarad am eich blinder gyda'ch tîm gofal iechyd. Efallai bydd ffyrdd i'w wella.

Bydd eich meddyg yn chwilio am unrhyw resymau dros flinder y gellir eu trin, megis anemia. Efallai byddant yn eich archwilio ac efallai y cewch rai profion gwaed. Efallai byddant hefyd yn edrych ar y feddyginiaeth rydych yn cymryd. Mae hyn er mwyn gwirio os gallant wneud newidiadau iddynt a allai wella blinder. Er enghraifft, efallai byddant yn gostwng dos tabled sy'n eich gwneud yn gysglyd.

Triniaethau cyffur ar gyfer blinder

Nid oes yna lawer o driniaethau cyffur eto i helpu atal neu wella blinder. Gall steroidau, a ddefnyddir i drin problemau iechyd eraill fod o gymorth weithiau. Ond mae sgîl-ffeithiau iddynt, felly dylech siarad â'ch meddyg ynghylch y manteision a'r anfanteision posibl.

Cynhelir treialon ymchwil i geisio darganfod triniaethau cyffur newydd a gwell. Mae hyn yn cynnwys triniaethau cyffur ar gyfer blinder. Mae llawer o ysbytai'n awr yn cymryd rhan yn y treialon. Siaradwch â'ch meddyg ynghylch a allech chi gymryd rhan mewn treial ymchwil ar drin blinder.

Cael cefnogaeth

Os ydych chi'n ei chael yn anodd ymdopi gyda blinder, gallai egluro unrhyw broblemau i'ch meddyg neu nyrs eich helpu.

Dywedwch wrthynt am y gweithgareddau rydych yn eu canfod yn anodd. Gallai'r gweithgareddau hyn fod yn bethau fel dringo'r grisiau, coginio neu ymolchi. Gadewch iddynt wybod os oes rhywbeth sy'n gwneud y blinder yn well neu'n waeth. Fe allech geisio cadw dyddiadur o'ch blinder. Er enghraifft, nodi'r amser o'r dydd pan mae'n waeth neu'r pethau sy'n eich helpu i deimlo'n well. Gallech ei ddangos i'ch meddyg neu nyrs.

Dyma rai cwestiynau y gallech eu gofyn:

- Beth allai fod yn achosi fy mlinder?
- Oes yna unrhyw driniaethau a allai helpu?
- Beth alla i wneud i leihau fy mlinder?
- A allai fy meddyginiaethau fod yn effeithio ar fy lefelau egni?
- Pa help sydd ar gael?

Pethau y gallwch chi wneud

Mae yna wahanol bethau allwch chi wneud i reoli eich blinder. Gall rhai o'r rhain leihau eich blinder. Gall eraill eich helpu i ymdopi'n well.

Cynllunio ymlaen

Os oes gennych flinder, mae cynllunio ymlaen llaw yn bwysig. Mae hyn yn helpu gwneud yn siŵr y gallwch ddal i wneud yr holl bethau yr ydych fwyaf eisiau eu gwneud.

- Defnyddiwch ddyddiadur i'ch helpu i gofnodi pan fyddwch yn teimlo ar eich gorau a phryd fyddwch fwyaf blinedig.
- Ceisiwch gynllunio tasgau mwy ar gyfer adegau pan fyddwch yn debygol o deimlo'n llai blinedig.
- Ceisiwch gynllunio digon o amser i orffwys wedi cyfnod o weithgaredd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofalu am eich anghenion eich hun a chael digon o orffwys, hyd yn oed os oes gennych eraill i'w hystyried.

Diet

- Gall bwyta'n dda helpu cynyddu eich egni. Os ydych wedi colli'ch archwaeth neu os oes gennych broblemau bwyta eraill, gofynnwch i weld dietegydd yn yr ysbyty. Gallant roi cyngor i chi ar beth sydd orau i'w fwyta.
- Pan fydd eich archwaeth yn dda, gwnewch yn siŵr eich bod yn bwyta'n dda. Dylech geisio yfed digon o hylifau.
- Cadwch ddyddiadur pob dydd o beth ydych chi'n ei fwyta a phryd. Yna gallwch weld a oes gennych fwy o egni wedi rhai bwydydd penodol. Efallai y bydd yn help i gael rhywun arall i baratoi'r bwyd i chi. Neu gallech brynu prydau parod, neu ddefnyddio sefydliad sy'n danfon prydau at eich cartref.

Mae gennym daflen ffeithiau yn Gymraeg o'r enw **Bwyta'n iach** sy'n rhoi mwy o wybodaeth. Ewch i macmillan.org.uk/translations neu ein ffonio ar **0808 808 00 00**.

Gweithgarwch corfforol

Gall gweithgarwch corfforol helpu i leihau blinder. Gallai bod yn egniol helpu

- rhoi hwb i'ch archwaeth
- rhoi mwy o egni i chi
- magu cryfder eich cyhyrau
- gwella'ch cwsg.

Mae fel arfer yn ddiogel dechrau rhyw fath o weithgarwch corfforol yn ystod neu ar ôl triniaeth. Os penderfynwch wneud ychydig o weithgarwch corfforol, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn ei wneud yn ddiogel. Gallech ddechrau trwy eistedd mewn cadair yn hytrach na gorwedd yn eich gwely pan rydych yn gwella. Dylech gynyddu i gerdded pellteroedd byrion o gwmpas y tŷ. Hyd yn oed os oeddech wedi arfer gwneud gweithgarwch corfforol yn rheolaidd cyn cael diagnosis o ganser, efallai bod angen i chi fod yn fwy gofalus.

Mae sawl ffordd y gallwch ddod yn fwy egniol, gan gynnwys:

- gwneud mwy yn eich tŷ, megis gwaith tŷ neu arddio
- cerdded neu feicio i'r gwaith, siopau neu i weld ffrindiau
- ymarferion ymestyn fel ioga neu tai chi.

Peidiwch ag ymarfer os nad ydych yn teimlo'n dda, yn fyr eich gwynt, neu os oes gennych boen. Dywedwch wrth eich meddyg os nad ydych yn teimlo'n dda.

Cyn i chi ddechrau gwneud unrhyw weithgaredd corfforol neu gynyddu faint ydych chi'n ei wneud, mae'n bwysig cael cyngor gan weithiwr gofal iechyd. Gall eich arbenigwr canser neu feddyg teulu eich cyfeirio at ffisiotherapydd. Gallant eich helpu i weithio ar eich ffitrwydd corfforol a chryfder eich cyhyrau.

Cysgu

Gallai eich blinder wneud i chi deimlo fel cysgu trwy'r amser. Ond mae'n bwysig cadw trefn gysgu. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ceisio cysgu rhwng 6 ac 8 awr bob nos. Gallai cwsg o ansawdd da helpu gyda blinder. Gallai hefyd leihau'ch angen i gysgu yn ystod y dydd.

Awgrymiadau ar gyfer gwell cwsg:

- Ewch i'ch gwely a chodwch tua'r un amser bob dydd.
- Ceisiwch beidio â chysgu'n hwyr i'r dydd ar ôl noson ddi-gwsg. Gall hyn arwain at batrwm cwsg dryslyd.
- Ceisiwch wneud ychydig o ymarfer ysgafn fel cerdded. Gall hyn eich helpu i deimlo'n naturiol flinedig ac yn barod am gwsg.
- Cadwch eich meddwl yn brysur gyda gweithgareddau fel darllen, gemau neu bosau. Gall hyn hefyd eich helpu i deimlo'n naturiol barod am gwsg.
- Byddwch yn ymwybodol o sut mae pendwmpian yn effeithio arnoch. Mae rhai pobl yn canfod fod pendwmpian yn ystod y dydd yn eu helpu i gysgu'n well gyda'r nos, tra bod eraill yn cysgu llai cystal.
- Gall steroidau achosi problemau cysgu. Os ydych yn cymryd steroidau, holwch eich meddyg a allwch eu cymryd yn gynharach yn y dydd.

Cymorth emosiynol

Cyngor

Gall blinder effeithio ar eich emosiynau. Gall wneud i chi deimlo yn fwy pryderus neu mewn hwyliau is. Os ydych chi'n cael trafferth ymdopi yn emosiynol, efallai byddai gweld cynghorydd o gymorth i chi. Mae cynghorwyr wedi eu hyfforddi i wrando. Gallant eich helpu i ddelio ag emosiynau anodd.

Mae gan sawl ysbyty gynghorwyr neu staff sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig i ddarparu cymorth emosiynol i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ganser. Gall eich meddyg canser neu nyrs arbenigol ddweud wrthy'ch pa wasanaethau sydd ar gael. Gallant hefyd eich atgyfeirio. Mae hefyd gan rai meddygfeydd gynghorwyr, neu gallant eich atgyfeirio i weld un.

Grwpiau cefnogaeth

Mae rhai pobl yn teimlo ei fod yn helpu i siarad gyda phobl eraill sydd â phrofiad o flinder. Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn y Deyrnas Unedig grwpiau cefnogaeth. Weithiau maent wedi eu harwain gan weithiwr gofal iechyd. Efallai y bydd aelodau eraill o'r grŵp mewn sefyllfa debyg i chi.

Gallwch ffonio ein Llinell Gymorth Macmillan ar 0808 808 00 00 i gael gwybod am grwpiau cefnogaeth yn eich ardal. Gallwn geisio canfod os oes grŵp cefnogaeth ble mae pobl yn siarad yr un iaith â chi.

Therapiau cyflenwol

Mae therapïau cyflenwol yn driniaethau neu'n weithgareddau a all wneud i chi deimlo'n well. Nid ydynt yn trin canser. Mae gwahanol therapïau cyflenwol a allai helpu gyda blinder, megis:

- ymlacio
- therapi tylino
- ioga.

Efallai bydd rhai o'r therapïau hyn ar gael ar y GIG. Gall eich meddyg teulu roi mwy o fanylion i chi. Efallai byddwch hefyd yn medru eu cael trwy grŵp cymorth canser.

Er mwyn cadw'n ddiogel, mae'n bwysig gwirio cymwysterau a phrofiad therapydd. Os ydych angen help gyda hyn, gofynnwch i'ch meddyg neu nyrs, neu galwch Linell Gymorth Macmillan ar 0808 808 0000.

Cyn i chi ddefnyddio therapi cyflenwol, siaradwch gyda'ch meddyg neu nyrs arbenigol. Gallai rhai therapïau effeithio ar eich triniaeth canser.

Awgrymiadau ar gyfer rheoli gweithgareddau dydd i ddydd.

Os ydych angen help gyda phethau gartref, efallai y gallwch ofyn i'r teulu, ffrindiau neu gymdogion. Gall adeiladu rhwydwaith o gefnogaeth wneud gwahaniaeth mawr. Os ydych wastad yn ymddangos i fod yn ymdopi'n dda, efallai na fydd eich teulu a ffrindiau yn sylweddoli faint o help yr ydych ei angen. Neu efallai eu bod yn aros i chi ofyn am help.

Mae yna bethau y gallwch eu gwneud a allai helpu gyda thasgau bob dydd.

Cadw tŷ

- Gwasgarwch y tasgau ar hyd yr wythnos. Gwnewch ychydig o waith tŷ pob dydd, yn hytrach na gwneud llawer ar un tro.
- Os yw'n bosibl, gofynnwch i bobl eraill wneud gwaith trwm, megis garddio.
- Eisteddwch i lawr i wneud rhai tasgau os medrwch.
- Os yw'n bosibl, cyflogwch lanhawr i helpu. Gallai hyn fod yn ddrudd. Efallai byddwch yn gallu cael help yn y cartref oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol.

Siopa

- Os yw'n bosibl, ewch i siopa gyda ffrind neu aelod o'r teulu i gael help ychwanegol.
- Mae'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd yn cynnig siopa ar-lein y gellir ei ddanfôn i'ch cartref.
- Defnyddiwch droli siopa fel nad oes angen i chi gario basged drom. Gallai bag siopa ar olwynion fod o gymorth gyda siopa a chael pethau adref.
- Ewch i siopa ar adegau llai prysur.
- Gofynnwch i staff y siop eich helpu i bacio a mynd a'r neges i'r car.

Paratoi prydau

- Ceisiwch gael prydau parod neu fwyd sydd wedi'i goginio ymlaen llaw pan fyddwch fwyaf blinedig.
- Os medrwch, eisteddwch i lawr wrth baratoi prydau.
- Pan fyddwch yn llai blinedig, paratowch brydau ychwanegol neu ddyblu dognau i'w rhewi at pan fyddwch eu hangen.

Ymolchi a gwisgo

- Eisteddwch i lawr yn y bath yn hytrach na sefyll mewn cawod os medrwch, gan y gallai hyn ddefnyddio llai o egni.
- Eisteddwch yn y gawod os medrwch, i osgoi sefyll am rhy hir. Efallai y gall therapydd galwedigaethol gael sedd gawod i chi.

Therapyddion galwedigaethol

Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl sy'n cael anhawster symud o gwmpas neu wneud tasgau dyddiol fel gwisgo, ymolchi a choginio. Efallai byddant hefyd yn gallu ymweld â chi yn eich cartref i ganfod ffyrdd i'ch helpu i wneud pethau yn haws. Gall eich meddyg canser, nyrs arbenigol neu feddyg teulu eich atgyfeirio at therapydd galwedigaethol.

Gofal plant

Os oes gennych deulu, efallai byddwch yn ei chael yn anodd gofalu amdanynt wrth ymdopi â blinder. Gall beri gofid pan rydych yn methu â gwneud eich gweithgareddau teuluol arferol. I wneud gofal plant yn haws, fe allech:

- esbonio i'ch plant eich bod yn teimlo'n flinedig ac na fyddwch yn gallu gwneud cymaint gyda nhw ag o'r blaen.
- cynllunio gweithgareddau gyda'ch plant y gallwch eu gwneud ar eich eistedd - er enghraifft chwarae gemau bwrdd neu wneud pos.
- ceisio cynllunio gweithgareddau lle mae llefydd i chi eistedd tra bo'r plant yn chwarae.
- osgoi cario plant bach – yn hytrach defnyddiwch bram neu gadair wthio.
- ceisio cynnwys eich plant mewn ychydig o dasgau yn y tŷ.
- gofyn am help a derbyn help oddi wrth deulu a ffrindiau.

Gyrru

Gall gyrru fod yn anodd a pheryglus os ydych yn flinedig iawn. Efallai y byddwch yn llai gwylidwrus nag arfer, a llai abl i ganolbwyntio. Bydd eich amser ymateb wedi ei leihau hefyd. Efallai bydd y cynghorion hyn yn ddefnyddiol i chi:

- Peidiwch â gyrru os ydych yn teimlo'n flinedig iawn.
- Os yn bosibl, gofynnwch i aelod o'r teulu neu ffrind i'ch gyrru.
- Os oes angen i chi gyrraedd apwyntiadau ysbyty, gofynnwch i'ch nyrs neu feddyg os oes cludiant ysbyty ar gael fel nad oes rhaid i chi yrru.
- Os ydych yn teimlo'ch hun yn syrthio i gysgu wrth yrru, stopiwch mewn lle diogel a chymryd seibiant.

Ymdopi gyda blinder yn y gwaith

Efallai y sylwch fod blinder yn effeithio ar y modd rydych yn gweithio.

Mae unrhyw un gyda chanser wedi eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu na ddylai cyflogwyr drin pobl gyda chanser yn annheg. Mae hefyd yn golygu fod disgwyl i gyflogwyr wneud addasiadau rhesymol yn y gwaith, i gefnogi pobl gyda chanser.

Gallech siarad â'ch cyflogwr am:

- newid eich oriau neu weithio llai
- newid eich amser dechrau a gorffen fel y gallwch deithio i ac o'r gwaith ar adegau llai prysur.
- rhannu peth o'ch gwaith gyda chydweithwyr eraill
- cael lle parcio wrth ymyl lle rydych yn gweithio
- gweithio o gartref ar adegau y cytunwyd arnynt
- gwneud gwaith ysgafnach os yw'ch gwaith yn cynnwys ymdrech gorfforol neu godi trwm.

Gallai egluro effeithiau blinder i'ch cydweithwyr hefyd eich helpu i reoli eich blinder yn y gwaith. Efallai ei fod yn anodd i rai pobl ddeall pa mor flinedig ydych chi, yn enwedig os ydych yn edrych yn dda.

Os ydych yn hunangyflogedig, fe all helpu i siarad gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch budd-daliadau y gallech fod a hawl iddynt. Mae gennym daflen ffeithiau yn Gymraeg o'r enw **Cymorth ariannol - budd-daliadau** sy'n rhoi mwy o wybodaeth. Ewch i macmillan.org.uk/translations neu ein ffonio ar **0808 808 00 00**.

Gofalu am rywun gyda blinder

Mae llawer o bobl yn cefnogi aelod o'r teulu, partner, ffrind neu gymydog sydd â blinder. Gall gofalu am rywun gyda blinder olygu sawl peth, megis helpu gyda gofal personol, darparu cludiant neu drefnu apwyntiadau.

Os ydych yn gofalu am rywun gyda blinder, efallai fod yna sawl peth syml y gallwch eu gwneud i helpu:

- Cydnabod bod blinder yn anodd i'r ddau ohonoch.
- Helpu'r person i gadw dyddiadur o'u blinder. Er enghraifft, nodi'r amser o'r dydd pan mae'n waeth neu'r pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n well. Bydd hyn yn helpu'r ddau ohonoch weld pryd mae gan y person gyda blinder fwy neu lai o egni i wneud pethau.
- Ceisiwch helpu'r person rydych yn gofalu amdanynt i fod yn fwy egnïol neu i wneud newidiadau i'w diet.

Gallwch hefyd fynd i'r apwyntiadau yn yr ysbyty gyda'r person rydych yn gofalu amdanynt. Gallech eu helpu i esbonio i'r tîm gofal iechyd sut mae'r blinder yn effeithio ar y ddau ohonoch. Gallech ddangos dyddiadur blinder y person a gofyn am eu cyngor ynghylch beth arall y gallwch ei wneud i helpu.

Gofalu amdanoch eich hun

Pan rydych yn gofalu am rywun arall, mae'n bwysig eich bod yn gofalu am eich hun hefyd. Sicrhewch eich bod yn dal i fynychu eich apwyntiadau iechyd eich hun. Mae hyn yn cynnwys unrhyw frechiadau rydych eu hangen, megis brechiad y fflw. Os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau yn rheolaidd, mae'n bwysig fod gennych gyflenwad o'r rhain.

Os medrwch, ceisiwch:

- gymryd egwylliau
- bwyta'n dda
- bod yn egnïol
- cael noson dda o gwsg
- cael cymorth ar gyfer eich hun – efallai trwy siarad gyda gofaluwyr eraill mewn grŵp cefnogi.

Gallwch ffonio ein Llinell Gymorth Macmillan ar 0808 808 00 00 i gael gwybod am grwpiau cefnogaeth yn eich ardal. Gallwn geisio canfod os oes grŵp cefnogaeth ble mae pobl yn siarad yr un iaith â chi.

Sut y gall Macmillan eich helpu chi

Mae Macmillan yma i'ch helpu chi a'ch teulu. Gallwch gael cefnogaeth gan:

- **Linell Gymorth Macmillan (0808 808 00 00)**. Mae gennym gyfieithwyr, felly gallwch siarad gyda ni yn eich iaith. Dywedwch wrthym, yn Saesneg, yr iaith rydych am ei defnyddio. Gallwn ateb cwestiynau meddygol, roi gwybodaeth am gefnogaeth ariannol neu siarad gyda chi am eich teimladau. Mae'r llinell ffôn ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 8pm.
- **Gwefan Macmillan (macmillan.org.uk)**. Mae gan ein safle lawer o wybodaeth yn Saesneg am ganser a byw gyda chanser. Mae mwy o wybodaeth mewn ieithoedd eraill yn macmillan.org.uk/translations
- **Gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth**. Mewn gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth, gallwch siarad ag arbenigwr canser a chael gwybodaeth ysgrifenedig. Chwiliwch am eich canolfan agosaf yn macmillan.org.uk/informationcentres neu ffoniwch ni. Efallai y bydd gan eich ysbyty ganolfan.
- **Grwpiau cefnogaeth lleol** – Mewn grŵp cefnogaeth, gallwch siarad â phobl eraill wedi'u heffeithio gan ganser. Dewch o hyd i grŵp gerllaw yn macmillan.org.uk/supportgroups neu ffoniwch ni.
- **Cymuned Ar-lein Macmillan** – Gallwch hefyd siarad â phobl eraill wedi'u heffeithio gan ganser ar-lein yn macmillan.org.uk/community

Rhestr geiriau

Gair Cymraeg	Yn Saesneg	Sut i'w ddweud yn Saesneg (trawslythreniad o'r gair Saesneg)	Ystyr
Addasiadau rhesymol	Reasonable adjustments	Rîs-ny-byll Â-jysd-mynts	Newidiadau i'ch gwaith y gall eich cyflogwr eu gwneud i'ch caniatáu i aros neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae cyfreithiau sy'n gwarchod pobl rhag gwahaniaethu yn dweud bod yn rhaid i'ch cyflogwr wneud y newidiadau hyn mewn sefyllfaoedd penodol.
Anaemia	Anaemia	An-îm-ia	Nifer llai o <u>gelloedd</u> gwaed coch yn eich gwaed.
Archwaeth	Appetite	Ap-yt-eit	Pan fyddwch yn teimlo eich bod eisiau bwyd.
Byr o wynt	Breathlessness	Breth-les-nes	Ei chael yn fwy anodd anadlu neu anadlu'n gyflym.
Celloedd	Cells	Sels	Y blociau adeiladu bach sy'n llunio organau a meinwe ein corff.
Cemotherapi	Chemotherapy	Cî-mo-ther-ypi	Triniaeth canser sy'n defnyddio cyffuriau i ladd <u>celloedd</u> canser.
Cynghorydd	Counsellor	Cawn-sy-lyr	Rhywun sydd wedi'i hyfforddi i helpu pobl ymdopi gyda'u hemosiynau neu broblemau personol.
Diabetes	Diabetes	Dai-y-bî-tîs	Cyflwr ble mae lefel y siwgr yn y gwaed yn rhy uchel gan nad yw'r corff yn ei ddefnyddio yn iawn.
Dietegydd	Dietician	Dai-y-tish-iyn	Arbenigwr mewn bwyd a maeth. Gall ddweud wrthy ch pa fwydydd sydd orau i chi. Gallant hefyd roi cyngor i chi os oes gennych broblemau

MACMILLAN CANCER SUPPORT

			gyda'ch diet.
Ffisiotherapydd	Physiotherapist	Ffis-io-ther-yp-ist	Gweithiwr proffesiynol sy'n helpu rhywun ddefnyddio symudiad neu ymarfer corff i wella ar ôl salwch neu anaf.
Hormon	Hormone	Hor-mown	Sylwedd a wneir gan y corff sy'n rheoli sut mae'r organau yn gweithio. Mae gwahanol fathau o hormonau.
Ioga	Yoga	Io-ga	Math o ymarfer sy'n defnyddio ymestyn mwyn, anadlu'n ddwfn a symudiad.
Llawfeddygaeth	Surgery	Syr-jy-rî	Ffordd o drin canser trwy gael gwared ar y cyfan neu ran o'r canser. Gelwir hyn hefyd yn llawdriniaeth.
Radiotherapi	Radiotherapy	Rei-dio-ther-ypi	Triniaeth canser sy'n defnyddio pelydrau ynni uchel, megis pelydrau X, i ladd celloedd canser.
Steroidau	Steroids	Sder-oids	Meddyginiaeth y gallai rhai pobl ei gael fel rhan o'u triniaeth canser.
Tai chi	Tai chi	Tai tchi	Math o ymarfer sy'n cyfuno anadlu dwfn ac ymlacio gyda symudiadau araf.
Therapi Hormonaidd	Hormonal therapy	Hor-mown-yl ther-apy	Triniaeth canser sy'n gweithio trwy effeithio ar hormonau yn y corff.
Therapi targedig	Targeted therapy	Tar-get-ed ther-ypi	Triniaeth canser sy'n defnyddio cyffuriau sy'n targedu ac ymosod ar gelloedd canser.
Thyroid	Thyroid	Thei-roid	Chwarren yn y gwddf sy'n rhyddhau hormonau i'r gwaed.
Tylino	Massage	Mas-âj	Therapi cyflenwol sy'n defnyddio cyffyrddiad a gwasgedd ysgafn i leihau tyndra.

Mwy o wybodaeth yn Gymraeg

Mae gennym wybodaeth yn Gymraeg am y pynciau hyn:

<p>Mathau o ganser</p> <ul style="list-style-type: none">• Canser y fron• Canser y coluddyn mawr• Canser yr ysgyfaint• Canser y prostad <p>Triniaethau</p> <ul style="list-style-type: none">• Cemotherapi• Radiotherapi• Llawfeddygaeth	<p>Ymdopi â chanser</p> <ul style="list-style-type: none">• Os cewch ddiagnosis o ganser - Canllaw cyflym• Problemau bwyta a chanser• Diwedd oes• Cymorth ariannol - budd-daliadau• Cymorth ariannol – help gyda chostau• Bwyta'n iach• Blinder a chanser• Sgîl-ffeithiau triniaeth canser• Yr hyn y gallwch ei wneud i helpu'ch hun
---	---

I weld yr wybodaeth hon, ewch i macmillan.org.uk/translations

Siaradwch â ni yn Gymraeg

Gallwch ffonio Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** a siarad â ni yn Gymraeg trwy gyfieithydd. Gallwch siarad â ni am eich pryderon a'ch cwestiynau meddygol. Does dim ond angen i chi ddweud Cymraeg yn Saesneg pan y galwch (dywedwch "Welsh").

Rydyn ni ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 8pm.

Cyfeiriadau a diolchiadau

Mae'r wybodaeth hon wedi ei hysgrifennu a'i golygu gan dîm Datblygu Gwybodaeth Canser Cymorth Canser Macmillan. Mae wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan gwmni cyfieithu.

Mae'r wybodaeth gynwysedig yn seiliedig ar lyfryn Macmillan **Coping with fatigue**. Gallwn anfon copi atoch chi, ond mae'r llyfryn llawn ar gael yn Saesneg yn unig.

Mae'r wybodaeth wedi ei hadolygu gan arbenigwyr perthnasol a'i chymeradwyo gan ein Prif Olygydd Meddygol, Dr Tim Iveson, Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol a Phrif Olygydd Meddygol Macmillan.

Gyda diolch i Terry Capecci, Nyrs Gofal Lliniarol, a Jane Eades, Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol, Marie Curie. Diolch hefyd i'r bobl sydd wedi eu heffeithio gan ganser a adolygodd yr wybodaeth hon.

Mae'r holl wybodaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Am ragor o wybodaeth am y ffynonellau a ddefnyddiwn, cysylltwch â ni yn cancerinformationteam@macmillan.org.uk

MAC15754_Welsh



Adolygwyd y cynnwys: Hydref
2018

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gennym yn gywir, ond ni ddylid dibynnu arni i adlewyrchu cyflwr presennol ymchwil feddygol, sy'n newid o hyd. Os ydych chi'n poeni am eich iechyd, siaradwch â'ch meddyg. Ni all Macmillan fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o unrhyw gamgymeriad yn y wybodaeth hon na gwybodaeth trydydd parti, fel gwybodaeth ar wefannau rydym yn rhoi dolenni atyn nhw.

© Cymorth Canser Macmillan 2018. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Swyddfa gofrestredig 89 Albert Embankment, Llundain, SE1 7UQ.

Tiredness (fatigue) and cancer

This information is about fatigue. Fatigue means feeling very tired. It can be caused by cancer or cancer treatments.

Any words that are underlined are explained in the word list at the end. The word list also includes the pronunciation of the words in English.

If you have any questions about this information, ask your doctor or nurse at the hospital where you are having treatment.

You can also call Macmillan Cancer Support on freephone **0808 808 00 00**, Monday to Friday, 9am to 8pm. We have interpreters, so you can speak to us in your own language. When you call us, please tell us in English which language you need (say “xxxxx”).

